Cyngor Osteopathig Cyffredinol

Addysg Cyn-Gofrestru Osteopathig

# Deilliannau i Raddedigion a Safonau ar gyfer Addysg a Hyfforddiant

Yn weithredol o 1 Medi 2022



# Cynnwys

**Am y canllawiau hyn** 3

**Cyflwyniad** 4

**Deilliannau i Raddedigion** 6

Cyfathrebu a phartneriaeth â chleifion 6

Gwybodaeth, sgiliau a pherfformiad 7

Diogelwch ac ansawdd wrth ymarfer 10

Proffesiynoldeb 12

Cyflyrau cyffredin y dylai graddedigion fod yn gyfarwydd â nhw 13

**Safonau ar gyfer Addysg a Hyfforddiant** 17

Cynllunio, darparu ac asesu rhaglenni 18

Llywodraethu, arwain a rheoli rhaglenni 19

Diwylliant dysgu 19

Gwerthuso, adolygu a sicrhau ansawdd 20

Adnoddau 20

Myfyrwyr 21

Profiad clinigol 21

Cymorth a datblygiad staff 21

Cleifion 22

# Am y canllawiau hyn

1 Mae Deilliannau i Raddedigion ar gyfer Addysg Cyn-Gofrestru Osteopathig (Deilliannau i Raddedigion) a Safonau ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yn cael eu cyhoeddi gan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol (y Cyngor) ac yn dod i rym ar 1 Medi 2022. Y Cyngor yw'r corff a sefydlwyd o dan Ddeddf Osteopathiaid 1993 i reoleiddio osteopatheg yn y DU. Mae'n gwneud hyn drwy:

- bennu safonau
- sicrhau ansawdd addysg cyn-gofrestru
- cynnal y Gofrestr o osteopathiaid sydd â chaniatâd cyfreithiol i ymarfer yn y DU
- dileu neu gyfyngu ar gofrestriad osteopathiaid sydd ddim yn bodloni safonau

2 Y Safonau Ymarfer Osteopathig yw'r safonau craidd, a bennwyd gan y Cyngor, y mae'n rhaid i raddedigion y DU eu dangos cyn y gellir dyfarnu Cymhwyster Cydnabyddedig iddynt, sy'n galluogi graddedigion i gofrestru ac ymarfer fel osteopathiaid.

3 Mae'r Deilliannau i Raddedigion yn cefnogi'r Safonau Ymarfer ac yn gyfeirbwynt ar gyfer myfyrwyr, darparwyr addysgol, cleifion ac eraill. Mae'r deilliannau'n disgrifio agweddau proffesiynol addysg cyn-gofrestru osteopathig, a'r cymwyseddau y mae disgwyl i fyfyrwyr eu dangos cyn graddio er mwyn profi eu bod yn ymarfer yn unol â'r Safonau Ymarfer. Mae'r deilliannau'n cynrychioli'r gofynion isaf i ymgeisio am le ar Gofrestr y Cyngor, a symud ymlaen i yrfa mewn amrywiaeth o leoliadau. Mae'r Safonau ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yn nodi'r safonau y disgwyliwn i ddarparwyr rhaglenni addysg osteopathig eu bodloni.

4 Dylid darllen y canllawiau ochr yn ochr â chanllawiau atodol eraill a gyhoeddwyd gan y Cyngor, sy'n cynnwys:

- canllawiau am addasrwydd myfyrwyr i ymarfer
- canllawiau am reoli iechyd ac anabledd

5 Mae pwyntiau cyfeirio eraill sy'n llywio datblygiad addysg cyn-gofrestru osteopathig yn y gymuned academaidd yn cynnwys:

- Cod Addysg Uwch yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch y DU (yn cynnwys disgwyliadau, arferion, cyngor a chanllawiau yn cynnwys mewn perthynas â chynllunio a datblygu cyrsiau, dysgu ac addysgu, asesu, monitro a gwerthuso).
- Datganiad Meincnod Pwnc ar gyfer Osteopatheg yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch.

6 Dylai'r canlynol ddarllen y canllawiau hyn:

- myfyrwyr a darpar fyfyrwyr, i'w helpu i ddeall y disgwyliadau proffesiynol ar raddedigion i fodloni'r gofynion rheoleiddio craidd a nodir yn y Safonau Ymarfer.
- darparwyr hyfforddiant osteopathig, i bennu disgwyliadau proffesiynol ar gyfer myfyrwyr i fodloni'r Safonau Ymarfer, gan arwain at ddyfarnu Cymhwyster Cydnabyddedig a chofrestru gyda'r Cyngor.
- y rhai sy'n sicrhau ansawdd cymwysterau, i'w helpu i ddeall y disgwyliadau proffesiynol sy'n rhaid eu bodloni i gyflawni'r Safonau Ymarfer a gallu dyfarnu Cymhwyster Cydnabyddedig.

7 Gall y canllawiau hyn fod o ddiddordeb i:

- gweithwyr gofal iechyd eraill.
- cyflogwyr sy'n hwyluso dealltwriaeth o addysg osteopathig.
- y gymuned academaidd a phroffesiynol berthynol i iechyd ehangach, yn enwedig y rhai sydd am gefnogi integreiddio gwell, addysg ryngbroffesiynol a chydweithio yn y gymuned hon.
- cleifion, i'w hysbysu am gynnwys addysg a hyfforddiant osteopathig.

# Cyflwyniad

8 Mae'n rhaid i osteopathiaid allu ysgwyddo cyfrifoldeb clinigol llawn am eu cleifion a gweithio mewn partneriaeth â nhw. Mae hyn yn cynnwys gallu cymryd a chofnodi hanes achos claf a gwneud asesiad clinigol priodol, ffurfio diagnosis gwaith priodol neu sail resymegol dros ofal yng nghyd-destun prognosis posibl, ac esbonio hyn yn glir i'r claf i gefnogi trafodaeth ar opsiynau triniaeth. Mae hefyd yn cynnwys cydnabod a gweithio o fewn terfynau eu hyfforddiant a'u cymhwysedd fel ymarferydd a darparu triniaeth a gofal priodol, gan atgyfeirio at weithiwr gofal iechyd arall pan fo angen a rhoi buddiannau'r claf cyn eu rhai nhw – mae hynny'n hollbwysig.

9 Mae rhoi cleifion yn gyntaf yn golygu gweithio gyda nhw fel partneriaid yn eu gofal eu hunain, cefnogi cleifion i fynegi beth sy'n bwysig iddyn nhw, cytuno ar nodau a blaenoriaethau eraill, a rhoi'r pwys mwyaf ar eu diogelwch. Mae'n gofyn am ymroddiad i wella'n barhaus, mewn ymarfer unigol ac yn yr amgylchedd gofal iechyd ehangach y mae'r claf yn rhyngweithio ag ef hefyd. Gall osteopathiaid weithio fel rhan o dîm ehangach o weithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gofalu am y claf, a bydd gofyn iddynt gydweithio â darparwyr gofal iechyd eraill i sicrhau'r gofal gorau posibl i'r claf, pan fo dulliau o'r fath yn briodol ac ar gael.

10 Mae darparwyr hyfforddiant osteopathig yn paratoi myfyrwyr osteopathig ar gyfer gofynion ymarfer annibynnol neu gyflogaeth mewn amrywiaeth o rolau neu leoliadau. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth wyddonol a chlinigol, a sgiliau clinigol a phroffesiynol (yn cynnwys cofnodi a myfyrio), yn seiliedig ar gyfathrebu sydd wedi'i deilwra i anghenion unigol y claf (er enghraifft, dealltwriaeth y gall rhai cleifion ddod â chyfieithydd, neu ymateb yn well i wybodaeth ysgrifenedig mewn fformatau hawdd eu darllen), gwerthfawrogiad beirniadol o egwyddorion osteopathig a defnyddio'r sgiliau technegol sydd eu hangen ar gyfer ymarfer. Mae gofynion ymarfer yn gofyn am gyfathrebu effeithiol, gwerthuso beirniadol a'r sgiliau gweinyddol angenrheidiol i redeg practis. Mae sgiliau o'r fath yn helpu i sicrhau bod yr osteopath yn gallu darparu gofal o ansawdd uchel i gleifion. Yn bwysicaf oll, mae'n rhaid i ymarfer osteopathig ymgorffori'r gwerthoedd personol a phroffesiynol sydd eu hangen i ddarparu gofal iechyd o ansawdd uchel, gan sicrhau bod yr osteopath yn rhoi blaenoriaeth i ofal y claf.

11 Mae graddio'n amser o bontio sylweddol i fyfyrwyr, wrth iddynt newid yn syth o drin cleifion o dan oruchwyliaeth, i ymgymryd â rôl osteopath cymwysedig – gweithiwr gofal iechyd cofrestredig – ac ysgwyddo cyfrifoldeb clinigol annibynnol. Mae'r cyfnod pontio hwn yn gyfnod o ddysgu dwys allweddol i osteopathiaid newydd gofrestru, a gallant gymryd amser i ymgyfarwyddo ag amgylchedd ymarfer newydd. Dylai myfyrwyr fod yn ymwybodol o beryglon ac effaith ynysigrwydd proffesiynol a chael eu hannog i ddatblygu rhwydweithiau cymheiriaid a chymunedau ymarfer, a all ddatblygu'n rhwydweithiau proffesiynol ar ôl graddio a gydol eu gyrfa. Mae rhwydweithiau gydol gyrfaoedd yn hanfodol. Gall y darparwyr addysgol, y corff aelodaeth proffesiynol – y Sefydliad Osteopatheg, grwpiau osteopatheg rhanbarthol a sefydliadau arbenigol helpu. Gall hyn fod yn bwysig iawn i'r rhai a all fod yn teimlo'n fwy unig yn sgil cyfrifoldebau gofalu, cyfyngiadau daearyddol neu amgylchiadau bywyd eraill sy'n golygu bod creu a chynnal rhwydweithiau'n anoddach.

12 Fel ymarferwyr gofal iechyd, mae osteopathiaid yn gyfrifol hefyd am gadw eu gwybodaeth a'u sgiliau'n gyfredol i sicrhau eu bod yn parhau i ddarparu safonau gofal uchel i gleifion. Dylent ymgysylltu'n broffesiynol, gan gydymffurfio â gofynion rheoleiddio yn ymwneud â datblygiad proffesiynol parhaus (DPP).

13 Mae ymarfer osteopathig yn cael ei ddarparu yn y sector annibynnol yn aml. Mae'r deilliannau yn y canllawiau hyn yn canolbwyntio ar ymarfer clinigol diogel, effeithiol a moesegol o fewn pa bynnag gyd-destun neu leoliad y mae'r osteopath yn darparu'r gofal. Mae'n rhaid i osteopathiaid fod yn gyfarwydd â'r gofynion a'r heriau sy'n wynebu ymarferwyr (yn cynnwys yr heriau o sefydlu, marchnata, rheoli a chynnal busnes newydd) a datblygu strategaethau ar gyfer eu rheoli cyn graddio. Gallai methu â gwneud hynny dynnu sylw oddi ar ofal cleifion yn ystod y blynyddoedd cyntaf o ymarfer a thu hwnt.

14 Mae'r ddogfen hon sy'n cynnwys y Deilliannau i Raddedigion ar gyfer Addysg Cyn-Gofrestru Osteopathig a'r Safonau ar gyfer Addysg a Hyfforddiant wedi'i dynodi fel datganiad Pwyllgor Addysg y Cyngor Osteopathig Cyffredinol o dan Reol 3 Rheolau'r Cyngor (Cydnabod Cymwysterau) 2000. Mae'r Deilliannau i Raddedigion yn nodi'r hyn y mae'r Cyngor yn disgwyl i ddarparwyr addysgol osteopathig ei ddarparu ac i fyfyrwyr ei ddangos cyn graddio. Mae'r deilliannau hyn yn dynodi diwedd cam cyntaf continwwm o ddysgu osteopathig sy'n parhau o'r diwrnod cyntaf mewn addysg osteopathig nes ymddeol. Ar ôl graddio, bydd graddedigion yn parhau i gynnal, datblygu ac ehangu eu gwybodaeth a'u sgiliau drwy DPP.

# Deilliannau i Raddedigion

Er mwyn graddio gyda Chymhwyster Cydnabyddedig, mae'n rhaid i fyfyrwyr ddangos eu bod yn ymarfer yn unol â Safonau Ymarfer Osteopathig.

Nod y deilliannau hyn yw helpu myfyrwyr i ddangos eu bod yn bodloni'r Safonau Ymarfer Osteopathig. Nid ydynt yn hollgynhwysfawr, fodd bynnag, a gallai darparwyr hyfforddiant osteopathig ofyn i fyfyrwyr ddangos amrywiaeth o ddeilliannau ychwanegol.

## Cyfathrebu a phartneriaeth â chleifion

Mae'r berthynas therapiwtig rhwng osteopath a chlaf wedi'i hadeiladu ar gyfathrebu da, ymddiriedaeth a hyder. Mae'n rhaid i gleifion fod yn ganolog i ofal iechyd a derbyn y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud dewisiadau gwybodus am y gofal a dderbyniant.

15 Bydd graddedigion yn gallu gwneud y canlynol:

a. Gweithio mewn partneriaeth â chleifion mewn modd agored a thryloyw, gan barchu eu hunigolrwydd, pryderon, dymuniadau, urddas a'u gwyleidd-dra, a chefnogi cleifion i fynegi beth sy'n bwysig iddyn nhw (yn cynnwys drwy wrando'n astud ac ymateb i adborth). Efallai fod gan bobl anghenion neu ddymuniadau penodol yn ymwneud ag anabledd neu grefydd neu nodweddion gwarchodedig eraill, er enghraifft, ond gofalwch beidio â gwneud rhagdybiaethau o ganlyniad i'r rhain. Dylech drin pob person fel unigolyn, gan archwilio eu pryderon a'u dymuniadau penodol, a nodi a goresgyn rhwystrau i gyfathrebu.

b. Deall a gweithredu egwyddorion ymgynghoriadau o bell ac wyneb yn wyneb yn briodol.

c. Cyfathrebu gwybodaeth yn effeithiol. Dylid dangos hyn drwy'r canlynol, er enghraifft:
   i. darparu cymorth i gleifion i fynegi beth sy'n bwysig iddyn nhw.
   ii. dangos sgiliau rhyngbersonol effeithiol, bod yn gwrtais ac ystyriol gyda chleifion a chydweithwyr a'u trin ag urddas a chwrteisi.
   iii. dangos sgiliau cyfathrebu clir ac effeithiol yn cynnwys fformatau ysgrifenedig, llafar ac amgen, i wella gofal cleifion.
   iv. cyfathrebu gwybodaeth sensitif i gleifion, gofalwyr neu berthnasau'n effeithiol a thosturiol a bod yn sensitif i anghenion cleifion.
   v. darparu'r wybodaeth y mae cleifion ei heisiau neu angen ei gwybod yn glir, yn llawn a gonest ac mewn ffordd y gallant ei deall, i'w galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus am eu gofal.

1. Mae'n bwysig gofyn i gleifion ddweud wrthych chi am eu hanghenion a'u dymuniadau cyfathrebu a sut maent yn hoffi rhoi a derbyn gwybodaeth fel ei bod yn hygyrch iddyn nhw. Er enghraifft, gall cleifion â namau synhwyraidd ofyn i chi eu hwynebu fel y gallant ddarllen gwefusau, neu efallai eu bod am ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain neu Makaton (gyda Dehonglydd). Efallai y bydd cleifion am dderbyn gwybodaeth ysgrifenedig mewn ffont neu faint testun arbennig. Efallai y byddant am ddefnyddio cyfieithydd os nad Cymraeg neu Saesneg yw eu mamiaith, neu efallai y byddai cyfathrebiadau hawdd i'w darllen yn fuddiol.

d. Cael caniatâd ar gyfer pob agwedd ar archwiliadau a thriniaeth fel y bo'n briodol yn unol â chanllawiau'r Cyngor, mae hyn yn cynnwys:
    i. gallu esbonio natur a goblygiadau'r driniaeth, yng nghyd-destun prognosis posibl, a beth y gall cleifion ei ddisgwyl gennych chi fel osteopath.
    ii. sicrhau bod y claf wedi deall natur, manteision rhagweledig ac unrhyw risgiau pwysig neu arwyddocaol sydd gan yr archwiliad, y driniaeth neu gamau eraill arfaethedig a'r opsiynau gofal.
    iii. sicrhau bod y claf yn rhoi cydsyniad yn wirfoddol - a bod y claf yn deall ei fod yn gallu derbyn neu wrthod yr opsiynau archwiliad neu driniaeth arfaethedig.
    iv. sicrhau bod gan y claf y capasiti i gydsynio i'r archwiliad, triniaeth neu gamau eraill arfaethedig - mae hyn yn bwysig iawn yn achos plant ac oedolion agored i niwed.

e. Cynorthwyo cleifion i ofalu am eu hunain i wella a chynnal eu hiechyd a'u lles eu hunain.

f. Sicrhau nad yw eu gwerthoedd a'u credoau eu hunain yn achosi rhagfarn o ran gofal eu cleifion.

g. Pennu disgwyliadau am sut y gall cleifion gysylltu (er enghraifft, dros y ffôn neu drwy e-bost) os oes ganddynt unrhyw bryderon (sicrhau bod cleifion yn gallu cael gafael ar y dulliau cyfathrebu sydd ar gael).

## Gwybodaeth, sgiliau a pherfformiad

Mae'n rhaid bod gan osteopathiaid y wybodaeth a'r sgiliau i gefnogi eu hymarfer fel gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sylfaenol, a rhaid iddynt eu cynnal a'u datblygu gydol eu gyrfaoedd, gan weithio o fewn terfynau eu gwybodaeth, sgiliau a phrofiad bob amser.

16 Bydd graddedigion yn gallu gwneud y canlynol:

a. Gwybod a deall y prif gysyniadau a chyrff o wybodaeth er mwyn gallu ymarfer osteopatheg, wedi'u seilio ar egwyddorion osteopathig a chanllawiau priodol, a gallu eu gweithredu, yn feirniadol, wrth ofalu am gleifion. Mae'r prif gysyniadau hyn yn cynnwys:
    i. athroniaeth osteopathig, egwyddorion a chysyniadau ynghylch iechyd, salwch, clefydau ac ymddygiad, a safbwyntiau seicolegol a chymdeithasegol cysylltiedig.
    ii. strwythur a swyddogaeth dynol normal ac anhrefnus, anatomeg, seicoleg, pathoseicoleg a mecanweithiau poen.
    iii. gwybodaeth berthnasol o wyddorau clinigol, biofeddygol ac ymddygiadol cyfredol i lywio rheolaeth cleifion.
    iv. egwyddorion ffordd iach o fyw, ac effeithiau dewisiadau bywyd a ffordd o fyw cleifion ar eu hiechyd a'u lles.
    v. dealltwriaeth o feddyginiaethau cyffredin a'u heffeithiau a'u goblygiadau clinigol ar gyfer gofal osteopathig.
    vi. cyd-destun osteopatheg o fewn yr amgylchedd gofal iechyd ehangach.
    vii. pwysigrwydd amrywiaeth a gwerthoedd unigol a dealltwriaeth o ddeddfwriaeth cydraddoldeb a gwrth-wahaniaethu o fewn gofal osteopathig a sut i gymhwyso hyn i ymarfer.

viii. effaith gwahaniaethu ac anghydraddoldebau iechyd a sut i archwilio cyd-destun i ddarparu gofal gwell i gleifion.
ix. gwahanol leoliadau a chyd-destunau darparu gofal iechyd osteopathig, yn cynnwys y wybodaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol i gynnal ymgynghoriadau o bell ac wyneb yn wyneb.

b. Dangos agwedd feirniadol a myfyriol at ymarfer, dylai hyn gynnwys:
i. ymrwymiad i gasglu adborth gan eraill a myfyrio arno;
ii. myfyrio yn seiliedig ar lenyddiaeth, canllawiau a phrofiad o ddatblygu sgiliau clinigol a phroffesiynol;
iii. dysgu gydol oes;
iv. gwella ansawdd gofal gydol eu hoes ymarfer;
v. cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu cymheiriaid, a darparu adborth i eraill.

c. Ceisio myfyrio ar eu hymarfer a'i wella'n barhaus.

d. Cydnabod a gweithio o fewn terfynau eu hyfforddiant a'u cymhwysedd, gan ofyn am gyfarwyddyd priodol neu atgyfeirio lle bo'n briodol i sicrhau diogelwch a gofal effeithiol i gleifion.

e. Gallu dadansoddi a myfyrio ar wybodaeth sy'n gysylltiedig â'u hymarfer er mwyn gwella gofal i gleifion.

## Addysg

17 Dylai graddedigion allu dangos lefel briodol o ddealltwriaeth addysgol, a fydd yn cynnwys gallu:

a. Asesu a gwerthuso eu hanghenion dysgu eu hunain a datblygu cynllun i'w diwallu, gan ystyried pedair thema'r Safonau Ymarfer Osteopathig.

b. Ymgymryd â dysgu wedi'i hunan-gyfarwyddo, gan fyfyrio'n feirniadol i gael cymaint o sgiliau a gwybodaeth glinigol â phosibl.

c. Ymgysylltu â chymhelliant, cam datblygu a chapasiti unigolion a'u harfarnu ac ymateb iddynt, cydweithio i gefnogi llythrennedd iechyd a grymuso unigolion i gymryd rhan mewn penderfyniadau am eu gofal a sicrhau'r iechyd a lles gorau.

d. Manteisio ar gyfleoedd i ddysgu gydag eraill, gan gydnabod manteision dull cydweithredol o ofalu am gleifion a datblygiad proffesiynol.

e. Cydnabod y rôl y gallant ei chyflawni i gefnogi cydweithwyr, fel rôl-fodelau, mentoriaid, ac wrth roi adborth i gymheiriaid i ddatblygu eu hunain ac eraill a gwella gofal i gleifion.

## Arwain a rheoli

18 Dylai graddedigion allu dangos lefel briodol o ddealltwriaeth o arwain a rheoli, a fydd yn cynnwys gallu:

a. Bod yn esiampl o werthoedd eu darparwr addysg, gan ddangos dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o ddarparu gofal a datblygiad i gleifion.

b. Gwerthuso ac archwilio eu hymarfer eu hunain, ac os yn briodol, cymryd rhan mewn gwasanaeth amlddisgyblaethol ehangach a gwerthuso tîm i wella gofal cleifion (er enghraifft, canlyniadau gofal, profiad a diogelwch).

c. Cymryd rhan mewn prosesau adolygu cymheiriaid i lywio eu hymarfer eu hunain ac eraill, gan ffurfio a gweithredu strategaethau i weithredu ar ddysgu a gwneud gwelliannau.

d. Derbyn adborth gan amrywiaeth o ffynonellau (yn cynnwys cleifion a chydweithwyr), ei ddadansoddi a nodi ffyrdd o wella darpariaeth gofal osteopathig.

e. Dangos arweiniad, gwydnwch ac ymroddiad, gan reoli sefyllfaoedd anghyfarwydd, cymhleth neu anrhagweladwy a cheisio meithrin hyder mewn pobl eraill.

f. Dangos eu bod yn barod i dderbyn her ac yn barod i herio eraill yn adeiladol, a chodi llais pan allai ymddygiad eraill effeithio ar ddiogelwch, iechyd a lles cleifion, cydweithwyr a'r cyhoedd.

## Ymchwil

19 Dylai graddedigion allu dangos lefel briodol o ddealltwriaeth a darpariaeth ymchwil, yn cynnwys gallu:

a. Arfarnu tystiolaeth yn feirniadol a gwerthuso ei hansawdd a'i phriodolrwydd ar gyfer ei defnyddio mewn ymarfer clinigol.

b. Deall amrywiaeth o gysyniadau a methodolegau ym maes ymchwil glinigol.

c. Gallu gwahaniaethu rhwng ymchwil, archwiliad clinigol a gwerthusiad gwasanaeth.

d. Deall a gallu defnyddio iaith ymchwil dechnegol.

e. Gallu dewis dulliau ymchwil priodol i ateb cwestiynau ymchwil.

f. Deall mesur canlyniadau yng nghyd-destun ymarfer clinigol a phrosiectau ymchwil.

g. Gwerthuso ansawdd, uniondeb a dilysrwydd gwybodaeth a data.

h. Deall a gallu dehongli ymchwil feintiol ac ansoddol.

i. Deall cyfrinachedd mewn perthynas â data a gwybodaeth lle gellir adnabod cleifion yn cynnwys egwyddorion Caldicott Guardian.

j. Dangos dealltwriaeth o foeseg a gweithdrefnau cymeradwyo llywodraethu mewn perthynas â dechrau a chyflawni ymchwil.

k. Dangos dealltwriaeth o gydsyniad a recriwtio cyfranogwyr mewn modd moesegol sy'n gyson â phrotocol ymchwil, a gweithredu fel y bo'n briodol wrth ymarfer.

l. Deall a chyflawni ymarfer clinigol da mewn perthynas â gofal uniongyrchol i gleifion/cyfranogwyr.

## Diogelwch ac ansawdd wrth ymarfer

Mae'n rhaid i osteopathiaid ddarparu gofal iechyd diogel o ansawdd uchel i gleifion.

20 Bydd y graddedigion yn gallu gwneud y canlynol:

a. Cofnodi hanes achos claf yn gywir, gan addasu eu harddull gyfathrebu i ystyried anghenion unigol y claf (er enghraifft, fformatau hawdd eu darllen i gefnogi pobl ag anableddau dysgu) a sensitifrwydd er mwyn meithrin perthynas therapiwtig effeithiol.

b. Cofnodi hanes y claf a chanfyddiadau'n gryno a chywir yn unol â chanllawiau'r Cyngor.

c. Dewis a chynnal asesiad a gwerthusiad clinigol cywir a phriodol o glaf unigol (gan ystyried, er enghraifft, cyflyrau iechyd isorweddol, gwahanol arlliwiau croen neu wahanol asesiadau a allai fod yn angenrheidiol mewn perthynas â rhyw neu rywedd, lle bo'n briodol). Bydd hyn yn cynnwys profion clinigol perthnasol, arsylwi, dadansoddi teimlad cyffyrddol a symudiad, i weld pob arwydd corfforol, meddyliol ac emosiynol er mwyn ffurfio sail cynllun trin a rheoli, mewn partneriaeth â'r claf, yn cynnwys dadansoddi achoseg ac unrhyw ffactorau rhagdueddol neu barhaus.

d. Dangos dealltwriaeth o egwyddorion a'r defnydd o gymorth cyntaf a chymryd camau priodol mewn argyfwng meddygol.

e. Gwerthuso gwybodaeth a gasglwyd o wahanol ymchwiliadau a ffynonellau yn feirniadol, i ffurfio diagnosis gweithio neu sail resymegol briodol ar gyfer gofal, yng nghyd-destun prognosis posibl, ac esbonio hyn yn glir i'r claf, gan gydnabod meysydd sydd angen eu hatgyfeirio ar gyfer triniaeth neu ymchwiliad pellach.

f. Datblygu a gallu gweithredu cynllun gofal priodol mewn partneriaeth â'r claf a fydd yn ystyried ei werthoedd, dymuniadau a nodweddion penodol, yn seiliedig ar y diagnosis gweithio, y dystiolaeth orau sydd ar gael a sgiliau, profiad a chymhwysedd yr ymarferydd. Gall hyn gynnwys presgripsiwn addysg, symud, trin ac ymarfer i'r claf neu fentrau eraill i hyrwyddo a hwyluso hunanreolaeth y claf, gan ddefnyddio'r holl sgiliau ymarferol yn fanwl gywir, a'u haddasu pan fo angen i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

g. Gwybod am amrywiaeth o fodelau gofal iechyd a gallu eu defnyddio mewn gwahanol sefyllfaoedd a chyda gwahanol gleifion yn seiliedig ar gredoau, dymuniadau ac anghenion iechyd y claf, gan ddefnyddio model bioseicogymdeithasol i lywio asesiad a dull rheoli'r claf.

h. Deall effaith ymddygiad, iaith a chredoau a rhagfarn ddiarwybod yr ymarferydd ar ganlyniadau cleifion.

i. Ni ddylai'r ymarferydd ddod â'i gredoau ei hun i'r sgwrs broffesiynol neu'r driniaeth, a dylai osgoi unrhyw dueddiadau tuag at gysgodi diagnostig, lle rhagdybir bod symptomau claf yn ganlyniad i gyflyrau sy'n bodoli'n barod.

j. Cydnabod a hyrwyddo pwysigrwydd rhwydweithiau a chymunedau cymdeithasol ar gyfer unigolion a'u gofalwyr wrth reoli iechyd a lles.

k. Hyrwyddo pwysigrwydd gweithgarwch corfforol ar gyfer iechyd, a gweithio mewn partneriaeth â chleifion i'w galluogi i gynnwys hyn yn eu bywydau bob dydd.

l. Gallu dewis neu addasu dulliau i ddiwallu anghenion unigolyn. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am wrtharwyddion cymharol ac absoliwt dulliau trin osteopathig a dulliau atodol.

m. Adolygu'r diagnosis cychwynnol ac effeithiau gofal osteopathig yn rheolaidd, mewn partneriaeth â'r claf, gan addasu'r cynllun rheoli fel y bo'n briodol.

n. Cydnabod pan fo angen atgyfeiriad, ac atgyfeirio'r claf i weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall, gan ddilyn gweithdrefnau atgyfeirio priodol.

o. Cymryd rhan yn y broses atgyfeirio o ofal sylfaenol i ofal eilaidd a/neu drydyddol ac i'r gwrthwyneb, a dangos gallu i atgyfeirio ar draws ffiniau a thrwy wahanol lwybrau gofal, fel y bo'n briodol.

p. Gallu llunio adroddiadau ac atgyfeiriadau a chyflwyno gwybodaeth mewn fformat priodol i gefnogi gofal cleifion a rheoli ymarfer yn effeithiol.

q. Cydnabod pan fo'r claf wedi cael adwaith andwyol i driniaeth a chymryd camau priodol.

r. Rhyddhau claf o ofal yn briodol.

s. Bod yn ymwybodol o'u rôl ehangach fel gweithiwr gofal iechyd proffesiynol i gyfrannu at wella iechyd a lles cleifion drwy fod yn ymwybodol o broblemau a phryderon iechyd cyhoeddus, gan eu trafod mewn ffordd gytbwys a llywio cleifion at adnoddau i gefnogi penderfyniadau a dewisiadau ffordd o fyw iach. Dylai ymarferwyr fod yn ymwybodol o effaith anghydraddoldebau iechyd ac amgylchiadau economaidd-gymdeithasol unigolion a sicrhau bod cyngor yn cael ei deilwra'n briodol ac y rhoddir cyfarwyddyd priodol ynghylch cymorth.

t. Bod â dealltwriaeth o ofynion iechyd a diogelwch, yn cynnwys asesiadau risg, a mesurau rheoli haint yn ymwneud ag ymarfer diogel, a gallu eu gweithredu wrth ymarfer, gan ddilyn canllawiau iechyd cyhoeddus, rheoleiddio a phroffesiynol i osgoi trosglwyddo clefydau trosglwyddadwy (gweler Canllawiau'r Cyngor Osteopatheg Cyffredinol ar Reoli Heintiau).

u. Cydnabod pan allai cleifion (yn cynnwys plant ac oedolion agored i niwed) fod yn wynebu risg (yn cynnwys mewn sefyllfaoedd sy'n cynnwys trais domestig), a gallu cymryd camau gweithredu priodol i gadw cleifion rhag niwed, yn cynnwys dilyn y gweithdrefnau diogelu perthnasol.

v. Deall eu dyletswydd fel gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i gymryd camau gweithredu priodol os ydynt yn credu bod iechyd, ymddygiad neu berfformiad proffesiynol cydweithiwr yn achosi risg i gleifion.

w. Dangos ffyrdd o sefydlu ymarfer hyfyw, diogel ac effeithiol, yn cynnwys:
   i. gwybodaeth am a'r gallu i gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol a chanllawiau cysylltiedig, yn cynnwys ym meysydd iechyd a diogelwch, diogelu data, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a gofynion ariannol a chyfrifyddu.
   ii. gallu defnyddio dulliau priodol a chyfreithiol o farchnata a hysbysebu.
   iii. dealltwriaeth o'r problemau mewn perthynas â defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn briodol, yn gyfreithiol, yn ddiogel a moesegol, mewn perthynas ag ymarfer proffesiynol.
   iv. gwybodaeth a dealltwriaeth o'r gofynion rheoleiddio yn eu hardal fwriedig, yn cynnwys rolau'r awdurdod lleol perthnasol, y Quality Care Commission (Lloegr), Healthcare Improvement Scotland, y Regulation and Quality Improvement Authority (Gogledd Iwerddon) ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.
   v. y gallu i ddatblygu gwybodaeth glir, gynhwysol a hygyrch am gleifion mewn amrywiaeth o fformatau a dulliau i ddarparu gwybodaeth am gleifion y gall cleifion unigol ei deall cyn apwyntiad.

## Proffesiynoldeb

### Mae'n rhaid i osteopathiaid weithredu'n onest a gydag uniondeb a chynnal safonau ymddygiad proffesiynol a phersonol uchel i sicrhau ymddiriedaeth y cyhoedd yn y proffesiwn, gan gynnal ei enw da bob amser drwy eu hymddygiad yn y gweithle a thu allan.

21 Bydd graddedigion yn gallu gwneud y canlynol:

a. Ymarfer yn unol â'r egwyddorion a'r safonau sydd yn y Safonau Ymarfer Osteopathig a chanllawiau cysylltiedig a gyhoeddir o dro i dro, a deall sut i weithio o fewn cyd-destun ansicrwydd, gan ddefnyddio'r safonau a ffynonellau gwybodaeth eraill i lywio barn broffesiynol a phenderfyniadau mewn partneriaeth â chleifion.

b. Dangos gonestrwydd ac uniondeb mewn ymarfer proffesiynol.

c. Sefydlu a chynnal ffiniau proffesiynol clir gyda chleifion a chydweithwyr, gan gydnabod pwysigrwydd ymddiriedaeth yn y berthynas therapiwtig.

d. Dangos dealltwriaeth o rôl sefydliadau a chyrff sy'n ymwneud ag addysg a rheoleiddio ostepathig a gweithwyr iechyd proffesiynol ehangach a chyfraniad osteopatheg yn yr amgylchedd gofal iechyd ehangach.

e. Deall pwysisgrwydd dyletswydd gonestrwydd ym maes gofal iechyd, a gweithredu ar hyn, gan ddatgelu ac ymddiheuro am bethau sydd wedi mynd o chwith, a chymryd camau mewn partneriaeth â'r claf i leihau eu heffaith.

f. Cydnabod sefyllfaoedd a allai arwain at gŵyn neu anfodlonrwydd, rheoli sefyllfaoedd lle nad yw disgwyliadau cleifion yn cael eu bodloni a gallu rheoli pryderon a chwynion cleifion yn briodol.

g. Deall a pharchu hawliau cleifion i breifatrwydd a chyfrinachedd, a'r mesurau sydd eu hangen i ddiogelu gwybodaeth cleifion yn effeithiol, gan gydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol yn hyn o beth.

2. Byddai hyn yn cynnwys rhagweld anghenion y rhai â nodweddion gwarchodedig yn cynnwys oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, crefydd neu gred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol.

h. Deall cyfraniadau gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol eraill, a phan fo angen, gallu cydweithio ag eraill i ddarparu'r gofal gorau posibl i gleifion.

i. Cefnogi cydweithwyr i wella gofal i gleifion a llywio eu dysgu a'u datblygiad proffesiynol, gan weithredu fel rôl-fodel a dangos arweiniad lle bo'n briodol.

j. Cydnabod y gall blinder a phroblemau iechyd gweithwyr gofal iechyd (yn cynnwys eu hunain) gyfaddawdu gofal i gleifion, a chymryd camau – yn cynnwys gofyn am arweiniad gan eraill lle bo'n briodol – i leihau'r risg.

k. Deall yr angen i gymryd camau i integreiddio i'r gymuned broffesiynol, a'r cymorth proffesiynol sydd ar gael gan amrywiaeth o ffynonellau i helpu gyda'r pontio i fywyd practis, yn cynnwys:
   - Y Sefydliad Osteopatheg (y corff proffesiynol ar gyfer osteopathiaid)
   - Grwpiau a chymunedau rhanbarthol
   - Grwpiau Buddiant Arbennig a chymdeithasau
   - Adnoddau a ddarperir gan y Cyngor i gefnogi datblygiad proffesiynol ac ymgysylltiad â gofynion DPP
   - Hybiau Ymchwil y Cyngor Osteopathig Cenedaletholl
   - Y gymuned o weithwyr iechyd proffesiynol lleol ehangach.

## Cyflyrau cyffredin y dylai graddedigion fod yn gyfarwydd â nhw

22 Mae'n rhaid i raddedigion fod wedi gweld dyfnder (niferoedd) ac ehangder (amrywiaeth) digonol o gleifion i'w galluogi i gyflawni'r Deilliannau i Raddedigion ar gyfer Addysg Cyn-Gofrestru Osteopathig ac i ddangos eu bod yn ymarfer yn unol â'r Safonau Ymarfer Osteopathig.

23 Mae'n rhaid i raddedigion gael y cyfle i gyfnerthu eu sgiliau clinigol cyn graddio. Er mwyn cefnogi hyn, dylai addysg osteopathig cyn-gofrestru gynnwys o leiaf 1,000 o oriau o ymarfer clinigol, er mai bodloni deilliannau sy'n bwysig nid cronni oriau. Gellir cyflawni dyfnder ac ehangder profiad digonol mewn amrywiaeth o ffyrdd, er enghraifft, drwy efelychiadau yn cynnwys actorion, clinigau rhithwir a phell, drwy arsylwi a rhyngweithio clinigol uniongyrchol, lleoliadau gydag osteopathiaid eraill, gweithwyr iechyd proffesiynol neu'r GIG, yn ogystal â darparu gofal clinigol ymarferol yn y clinig addysgu. Dylai graddedigion fod wedi gweld tua 50 claf newydd er mwyn cynnwys y cyflyrau a nodir isod. Dylai graddedigion sicrhau eu bod wedi gweld cleifion ar fwy nag un achlysur hefyd i'w galluogi i archwilio'r cyflyrau hyn yn llawn.

24 Gall rhai o'r cyflyrau isod gael eu dangos mewn ffyrdd eraill, er enghraifft, drwy chwarae rôl a defnyddio cleifion ffug.

### Elfennau cyffredin ymgynghoriadau

25 Mae'n rhaid i raddedigion allu dangos y canlynol mewn amrywiaeth eang o wahanol gyflyrau neu sefyllfaoedd cleifion:

a. Cofnodi hanes achos priodol, yn cynnwys:
   i. proffil claf priodol a pherthnasol
   ii. symptomau'r claf

   iii. hanes meddygol llawn (er enghraifft, ffactorau seicogymdeithasol, trawma, hanes meddygol, cymdeithasol a theuluol)
   iv. ymateb i driniaeth flaenorol
   v. dealltwriaeth o werthoedd, dymuniadau a nodau'r claf a beth sy'n bwysig iddo

b. Gwneud asesiad priodol o iechyd cyffredinol y claf o'r hanes achos ac ymddangosiad ac ymddygiad y claf.

c. Gwneud archwiliad ac asesiad osteopathig o fiofecaneg a system gyhyrysgerbydol y claf. Dylai hyn gynnwys:
   i. arsywli ar osgo ac ystum;
   ii. archwiiad osteopathig o ganfyddiadau statig a deinamig, gweithredol a goddrychol drwy arsylwi a theimlad cyffyrddol wrth sefyll a/neu eistedd a gorwedd.

d. Gwneud archwiliad clinigol priodol o'r claf (yn cynnwys archwiliad gweithredol a goddefol ac archwiliad clinigol o systemau) gan ystyried natur eu cyflwr a hanes achos.

e. Asesu ac esbonio cyfraniad posibl unrhyw ffactorau sy'n berthnasol i'r gŵyn dan sylw (er enghraifft, cefndir anatomegol, ffisiolegol, seicolegol, diwylliannol, moesegol, ffactorau cymdeithasol ac unrhyw ffactorau eraill).

f. Esbonio canfyddiadau clinigol, yn cynnwys prognosis posibl, i gleifion a chydweithwyr yn gywir a chlir.

g. Defnyddio rhesymeg glinigol feirniadol wedi'i datblygu'n dda ac esbonio:
   i. arwyddocâd yr arwyddion a'r symptomau
   ii. y diagnosis gwahaniaethol a'r diagnosis gweithio
   iii. y gwerthusiad osteopathig, yn cynnwys yr achoseg ac unrhyw ffactorau rhagdueddol neu barhaus a amheuir
   iv. ansicrwydd a chymhlethdod posibl
   v. sut y daethant i'r casgliad bod yr achos yn addas iddynt i'w drin, a/neu fod angen ei atgyfeirio at weithwyr gofal iechyd proffesiynol arall

h. Ffurfio cynllun trin a rheoli'n seiliedig ar:
   i. y diagnosis gweithio
   ii. rhagdybiaeth glir am yr achoseg ac unrhyw ffactorau rhagdueddol neu barhaus
   iii. dealltwriaeth o'r claf sy'n seiliedig ar wrando ar y claf a thrafod ei ddisgwyliadau, gwerthoedd a dymuniadau
   iv. y dystiolaeth orau sydd ar gael
   v. nodau triniaeth penodol
   vi. dulliau arfaethedig o gyflawni'r nodau triniaeth (yn cynnwys esboniad o'r fecanwaith a'r effaith debygol)

i. Dangos sut y gwnaethant weithio gyda'r claf i alluogi'r claf i roi cydsyniad gwybodus yn cynnwys sut wnaethant fynd i'r afael â'r canlynol:
   i. disgwyliadau'r claf.
   ii. sut y cafodd risgiau pwysig neu arwyddocaol yn gysylltiedig â'u cynllun triniaeth neu reoli arfaethedig eu hesbonio i'r claf.
   iii. sut y cafodd manteision y gwahanol opsiynau a gynigwyd eu hesbonio i'r claf a sut y rhoddwyd atebion i gwestiynau'r claf.
   iv. sut roedd y claf yn gallu gwneud penderfyniad, a rhoi cydsyniad i archwiliad a thriniaeth, a sut y cofnodwyd hyn.

j. Cynnal gwerthusiad o effeithiolrwydd triniaeth yn ystod ac ar ddiwedd y cwrs o driniaeth.

k. Gallu rheoli ble na chafodd disgwyliadau cleifion ynghylch effeithiolrwydd rheolaeth osteopathig eu bodloni, a dangos cyfathrebu effeithiol gyda chleifion ac eraill lle bo'n briodol mewn sefyllfaoedd o'r fath, yn cynnwys atgyfeirio lle bo'n briodol.

l. Yn achos atgyfeirio, dangos:
   i. dealltwriaeth o'u terfynau cymhwysedd personol a'r gallu i atgyfeirio at osteopath neu weithiwr gofal iechyd arall mwy profiadol pan fo angen.
   ii. sut y cafodd y claf ei gynnwys yn y penderfyniad i'w atgyfeirio at osteopath neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall mwy profiadol.
   iii. y camau a gymerwyd i gynorthwyo'r claf i ganfod osteopath neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol mwy priodol.
   iv. mecanwaith yr atgyfeiriad a wnaed (er enghraifft, y llythyr atgyfeirio arfaethedig)
   v. canlyniad yr atgyfeiriad, yn cynnwys unrhyw addasu dilynol ar eu cynllun triniaeth a rheoli.

## Y casgliad cyffredin o gyflyrau clinigol

26 Dylai graddedigion allu dangos dealltwriaeth gadarn o amrywiaeth o gyflyrau, naill ai drwy brofiad ymarfer gyda chleifion go iawn neu mewn sefyllfaoedd wedi'u hefelychu, a ddylai gynnwys:

a. Achos o gyflwr cyhyrysgerbydol.

b. Achos o gyflwr nad yw'n gyhyrysgerbydol.

c. Achos o gyflwr ag anghenion cyfathrebu penodol (er enghraifft, anghenion yn ymwneud ag iaith neu anabledd).

d. Cleifion ag amrywiaeth o nodweddion a allai gynnwys oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hunaniaeth o ran rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

e. Claf sy'n derbyn cwrs llawn o driniaeth – dylai'r myfyriwr graddedig barhau i weld y claf, o gofnodi ei hanes achos cychwynnol drwy'r driniaeth i pan mae'n cael ei ryddhau, a dylai ymdrin â gofal dilynol hefyd.

f. Claf sydd angen cael ei atgyfeirio at weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall.

g. Claf sydd yng ngofal gweithiwr gofal iechyd proffesiynol arall am gyflwr lle nad osteopatheg yw'r dull addas o drin y broblem sylfaenol o bosibl, ond lle y gallai triniaeth osteopathig fod o gymorth i leddfu symptomau.

h. Claf y daethpwyd i'r casgliad bod y defnydd o rai technegau yn anaddas ar ei gyfer (gwrtharwyddion).

i. Achosion lle nad yw cleifion yn ymateb yn unol â'r prognosis disgwyliedig.

j. Achosion lle mae gan gleifion gyflyrau cronig a allai fod angen triniaeth reolaidd i helpu'r claf i fyw'n well yn ei amgylchedd.

k. Achosion lle mae ymgynghoriad o bell yn cael ei wneud gyda’r claf.

l. Cyflyrau lle gall atgyfeiriad a diagnosis cynnar fod yn bwysig iawn ar gyfer sicrhau’r cyfle gorau i ddeilliannau hirdymor yr unigolyn, er enghraifft, dad-drefniant mewnol y ben-glin, gweyllen ffêr toredig, rhwyg anferth i lawes tröedydd, arthritis llidiol a chlefydau cymalau ac asgwrn cefn llidiol, syndrom cauda equina, haint ar y cymalau, haint meinweoedd meddal, haint ar yr esgyrn, arteritis arleisiol.

## Y casgliad cyffredin o ddulliau trin

27 Dylai fod gan raddedigion ddealltwriaeth feirniadol o amrywiaeth o ddulliau gofal cleifion sy’n ddigonol i lywio rheolaeth osteopathig cleifion yn ddiogel ac effeithiol, a’r sgiliau i’w rhoi ar waith mewn partneriaeth â chleifion ac o fewn cyd-destun y Safonau Ymarfer Osteopathig.

28 Dylai dulliau osteopathig ar gyfer triniaeth a rheoli cleifion gynnwys:

a. Gweithio mewn partneriaeth â’r claf yn cynnwys gwrando ar beth sy’n bwysig i’r claf a deall hynny.

b. Amrywiaeth o dechnegau llaw uniongyrchol ac anuniongyrchol sydd â’r nod o wella symudedd a swyddogaeth ffisiolegol mewn meinweoedd i wella iechyd a lles a lleihau poen.

c. Cyngor a chyfarwyddyd ar adsefydlu i hwyluso hunanreolaeth a gwella adferiad.

d. Darparu gwybodaeth a chyfarwyddyd ar iechyd ac atgyfeirio at adnoddau i gefnogi dewisiadau a phenderfyniadau cleifion am eu hiechyd a’u lles.

# Safonau Addysg a Hyfforddiant

Mae'n rhaid i ddarparwyr addysgol osteopathig ddarparu cwricwlwm sy'n sicrhau bod yr holl raddedigion sydd â Chymwysterau Cydnabyddedig yn bodloni'r deilliannau yn y canllawiau hyn a'r Safonau Ymarfer Osteopathig, ac sy'n bodloni'r safonau canlynol ar gyfer addysg a hyfforddiant.

1. **Cynllun, darparu ac asesu rhaglenni**
2. **Llywodraethu, arwain a rheoli rhaglenni**
3. **Diwylliant dysgu**
4. **Gwerthuso, adolygu a sicrhau ansawdd**
5. **Adnoddau**
6. **Myfyrwyr**
7. **Profiad clinigol**
8. **Cymorth a datblygiad staff**
9. **Cleifion**

## 1 Cynllunio, darparu ac asesu rhaglenni

Mae’n rhaid i ddarparwyr addysg sicrhau a gallu dangos y canlynol:

a. eu bod yn gweithredu a pharhau i adolygu proses dderbyn agored, teg, tryloyw a chynhwysol, gyda gofynion mynediad priodol yn cynnwys cymhwysedd mewn Saesneg llafar ac ysgrifenedig.

b. bod yna bolisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gael mewn perthynas ag ymgeiswyr, a’u bod yn cael eu gweithredu a’u monitro’n effeithiol.

c. eu bod yn gweithredu proses deg a phriodol ar gyfer asesu dysgu a phrofiad blaenorol ymgeiswyr.

d. bod yr holl staff sy’n ymwneud â chynllunio a darparu rhaglenni’n derbyn hyfforddiant ar holl bolisïau’r darparwr addysgol (yn cynnwys polisïau i sicrhau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant), a’u bod yn gefnogol, hygyrch, ac yn gallu cyflawni’u rolau’n effeithiol.

e. bod cwricwla ac asesiadau’n cael eu datblygu a’u gwerthuso gan addysgwyr ac ymarferwyr profiadol a chymwys.

f. eu bod yn cynnwys cyfranogiad myfyrwyr, cleifion, a’r cyhoedd lle bo’n bosibl a phriodol, wrth gynllunio a datblygu rhaglenni, a sicrhau bod adborth gan y grwpiau hyn yn cael ei ystyried yn rheolaidd ac y gweithredir arno.

g. bod y rhaglen a gaiff ei chynllunio a’i darparu’n adlewyrchu sgiliau, y sylfaen wybodaeth, yr agweddau a’r gwerthoedd sydd i’w gweld yn y Deilliannau i Raddedigion ar gyfer Addysg Cyn-Gofrestru Osteopathig (yn cynnwys yr holl ddeilliannau gan gynnwys effeithiolrwydd wrth addysgu myfyrwyr am anghydraddoldebau iechyd a thriniaeth ddiduedd ar gyfer cleifion amrywiol).

h. mae dulliau asesu’n ddibynadwy a dilys, ac yn darparu mesur teg o gyflawniad a datblygiad myfyrwyr ar gyfer rhan berthnasol y rhaglen.

i. bod meysydd pwnc yn cael eu darparu gan addysgwyr â gwybodaeth ac arbenigedd perthnasol a phriodol (rhaid i addysgu cynnwys osteopathig neu oruchwylio mewn clinigau addysgu, clinigau o bell neu ryngweithiadau clinigol eraill fod wedi’u cofrestru gyda’r Cyngor neu reoleiddiwr gofal iechyd statudol arall yn y DU lle bo’n briodol i ddarparu addysg amrywiol).

j. bod yna broses effeithiol ar waith ar gyfer derbyn, ymateb i a dysgu o gwynion myfyrwyr.

k. bod yna broses effeithiol ar waith i fyfyrwyr gyflwyno apelau academaidd.

## 2 Llywodraethu, arwain a rheoli rhaglenni

Mae'n rhaid i ddarparwyr addysg sicrhau a gallu dangos y canlynol:

a. eu bod yn gweithredu mecanweithiau llywodraethu effeithiol sy'n sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl ofynion cyfreithiol, rheoleiddiol ac addysgol, yn cynnwys polisïau ar gyfer diogelu, gyda llinellau clir o gyfrifoldeb ac atebolrwydd. Dylai hyn gynnwys rheoli a llywodraethu risg effeithiol, llywodraethu gwybodaeth a gofynion GDPR a llywodraethu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a llywodraethu'n ymwneud â chynllunio, darparu a dyfarnu cymwysterau.

b. bod ganddynt a'u bod yn gweithredu gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer teg, effeithiol a thryloyw i fynd i'r afael â phryderon am ymddygiad myfyrwyr a allai gyfaddawdu diogelwch cyhoeddus neu gleifion, neu gwestiynu eu gallu i fodloni'r Safonau Ymarfer Osteopathig.

c. bod yna sianeli hygyrch ac effeithiol i allu lleisio pryderon a chwynion a gweithredu arnynt.

d. bod y diwylliant yn ddiogel i fyfyrwyr, staff a chleifion godi eu llais am ymddygiad annerbyniol ac amhriodol, yn cynnwys bwlio (gan gydnabod y gall hyn fod yn anoddach i bobl sy'n cael eu bwlio neu eu haflonyddu neu i bobl sydd wedi dioddef anfantais yn sgil nodwedd warchodedig benodol ac y gall fod angen darparu gwahanol lwybrau ar gyfer gwahanol bobl i'w galluogi i deimlo'n ddiogel). Dylid atgyfeirio at lwybrau cymorth a chyngor allanol ac ar gyfer mynegi pryderon, er enghraifft, y Cyngor Osteopathig Cyffredinol, Protect (elusen codi llais sy'n gweithredu ledled y DU), y National Guardian yn Lloegr, neu'r adnoddau ar gyfer codi llais yng Nghymru, adnoddau ar gyfer codi llais yn yr Alban, ac adnoddau yng Ngogledd Iwerddon.

e. bod y diwylliant yn estyn croeso i staff a myfyrwyr sy'n gwneud camgymeriadau neu sydd ddim yn gwybod sut i ymdrin â sefyllfa benodol yn briodol ac yn eu hannog a'u cefnogi i godi llais a gofyn am gyngor a chymorth.

f. bod systemau i'w cael i roi sicrwydd, gyda thystiolaeth ategol, bod myfyrwyr wedi dangos deilliannau dysgu yn llawn.

## 3 Diwylliant dysgu

Mae'n rhaid i ddarparwyr addysg sicrhau a gallu dangos y canlynol:

a. bod yna ddiwylliant gofalgar a thosturiol o fewn y darparwr addysgol sy'n rhoi pwyslais ar ddiogelwch a lles myfyrwyr, cleifion, addysgwyr a staff, ac yn ymgorffori'r Safonau Ymarfer Osteopathig.

b. eu bod yn meithrin a chynnal diwylliant o weithredu agored, gonestrwydd, cynhwysiant a pharch i'r naill a'r llall ymhlith staff, myfyrwyr a chleifion.

c. bod y diwylliant dysgu yn deg, diduedd, cynhwysol a thryloyw, ac yn seiliedig ar egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth (yn cynnwys ymwybyddiaeth gyffredinol o gynhwysiant, addasiadau rhesymol a rhagweld anghenion unigolion amrywiol), a bod rhaid iddo fodloni gofynion yr holl ddeddfwriaeth berthnasol a bod yn gefnogol a chroesawgar.

d. bod yna brosesau ar waith i nodi ac ymateb i broblemau a allai effeithio ar ddiogelwch, hygyrchedd neu ansawdd yr amgylchedd dysgu, ac i fyfyrio ar bethau sy'n mynd o'i le a dysgu ganddynt.

e. bod myfyrwyr yn cael eu cynorthwyo i ddatblygu fel dysgwyr a gweithwyr proffesiynol yn ystod eu haddysg.

f. eu bod yn hyrwyddo diwylliant o ddysgu gydol oes yn ymarferol i fyfyrwyr a staff, gan annog dysgu oddi wrth ei gilydd, a sicrhau bod yna hawl i herio'n ddiogel, a heb atebolrwydd.

## 4 Gwerthuso, adolygu a sicrhau ansawdd

Mae'n rhaid i ddarparwyr addysg sicrhau a gallu dangos y canlynol:

a. bod yna fecanweithiau effeithiol ar waith i fonitro ac adolygu'r rhaglen, i gynnwys gwybodaeth am berfformiad a chynnydd myfyrwyr (a gwybodaeth am nodweddion gwarchodedig), fel rhan o gylch adolygu ansawdd.

b. bod arbenigedd allanol yn cael ei ddefnyddio yn yr adolygiad ansawdd o raglenni cyn-gofrestru osteopathig.

c. bod yna strwythur rheoli effeithiol, a bod polisïau a gweithdrefnau perthnasol a phriodol ar waith ac yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn gyfredol.

d. eu bod yn dangos gallu i groesawu a gweithredu arloesedd mewn ymarfer ac addysg osteopathig, lle bo'n briodol.

## 5 Adnoddau

Mae'n rhaid i ddarparwyr addysg sicrhau a gallu dangos y canlynol:

a. eu bod yn darparu adnoddau cymwys, hygyrch a digonol ar gyfer pob agwedd ar y rhaglen, yn cynnwys darpariaeth glinigol, i sicrhau bod yr holl ddeilliannau dysgu'n cael eu cyflawni'n effeithiol ac effeithlon.

b. bod y gymhareb staff-myfyrwyr yn ddigonol i ddarparu addysg a hyfforddiant sy'n ddiogel, hygyrch ac o'r ansawdd priodol wrth gaffael sgiliau osteopathig, ac yn y clinig addysgu a rhyngweithiadau eraill â chleifion.

c. mewn perthynas â deilliannau clinigol, dylai darparwyr addysgol sicrhau bod yr adnoddau'n gallu ystyried anghenion amrywiol myfyrwyr yn rhagweithiol (er enghraifft, darparu plinthau y gellir eu gweithredu'n electroneg, defnyddio nodiadau electronig fel mater o drefn, yn hytrach na nodiadau papur sy'n anoddach i fyfyrwyr â namau gweledol, argaeledd meddalwedd testun-i-lais, addasiadau i ofynion dillad ac esgidiau i ystyried anghenion myfyrwyr, cyfleoedd cyhoeddedig i addasu amseriadau sesiynau clinigol i ystyried anghenion myfyrwyr).

d. bod yna ddarpariaeth ddigonol gan y darparwr addysgol i ddarparu ar gyfer anghenion amrywiol myfyrwyr, er enghraifft, dylid cael trefniadau i famau dynnu a storio llaeth y fron a dylid darparu lle i weddïo mewn mannau preifat a mannau i fyfyrwyr gyfarfod yn breifat.

e. bod adeiladau'n hygyrch i gleifion, myfyrwyr ac osteopathiaid.

## 6 Myfyrwyr

Mae'n rhaid i ddarparwyr addysg sicrhau a gallu dangos eu bod yn gwneud y canlynol i fyfyrwyr:

a. darparu gwybodaeth glir a chywir am y cwricwlwm, dulliau addysgu, dysgu ac asesu a'r polisïau a phrosesau sy'n berthnasol i'w rhaglen.

b. darparu mynediad i gymorth effeithiol ar gyfer eu hanghenion academaidd a lles i gefnogi eu datblygiad fel Gweithwyr Iechyd Perthynol i Iechyd myfyriol, gofalgar ac annibynnol.

c. parchu ac ystyried eu hanghenion amrywiol ar draws pob agwedd ar y rhaglen (ystyried Canllawiau'r Cyngor am Reoli Iechyd ac Anabledd).

d. darparu adborth rheolaidd ac adeiladol i gefnogi eu datblygiad drwy'r rhaglen, ac i hwyluso ac annog ymarfer myfyriol.

e. rhoi'r cyfle i ddarparu adborth rheolaidd ar bob agwedd ar eu rhaglen, ac i ymateb yn effeithiol i'r adborth hwn.

f. rhoi cefnogaeth ac anogaeth iddynt gael llais gweithredol o fewn y darparwr addysg.

## 7 Profiad clinigol

Mae'n rhaid i ddarparwyr addysg sicrhau a gallu dangos y canlynol:

a. bod profiad clinigol yn cael ei ddarparu drwy amrywiaeth o fecanweithiau i sicrhau bod myfyrwyr yn gallu bodloni'r deilliannau clinigol sydd yn y Deilliannau i Raddedigion ar gyfer Addysg Cyn-Gofrestru Osteopathig.

b. bod yna ddull effeithiol o sicrhau bod myfyrwyr yn cael mynediad digonol i'r profiad clinigol sydd ei angen i ddatblygu ac integreiddio eu gwybodaeth a'u sgiliau, a chyflawni deilliannau'r rhaglen, er mwyn gallu bodloni'r Safonau Ymarfer Osteopathig yn ddigonol.

## 8 Cymorth a datblygiad staff

Mae'n rhaid i ddarparwyr addysg sicrhau a gallu dangos y canlynol:

a. bod addysgwyr yn cael eu recriwtio, eu sefydlu, eu hyfforddi (yn cynnwys mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a diwylliant a disgwyliadau cynhwysol y darparwr addysgol ac i wneud asesiadau diduedd), eu rheoli yn eu swyddi, ac yn cael cyfleoedd datblygu mewn modd priodol a theg.

b. bod addysgwyr yn gallu gofyn am, a derbyn y cymorth a'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni eu cyfrifoldebau a datblygu'n effeithiol yn eu swydd fel addysgwr.

c. bod addysgwyr yn cydymffurfio â'r holl safonau a gofynion perthnasol ac yn eu bodloni, a gweithredu fel rôl-fodelau proffesiynol priodol.

d. bod yna niferoedd digonol o addysgwyr profiadol gyda'r capasiti i addysgu, asesu a chefnogi'r gwaith o ddarparu'r Cymhwyster Cydnabyddedig. Mae'n rhaid i'r rhai sy'n addysgu sgiliau a theori osteopathig ymarferol, neu'n gweithredu fel addysgwyr clinigol neu ymarfer, fod wedi cofrestru gyda'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol, neu reoleiddiwr gofal iechyd statudol arall yn y DU lle bo'n briodol i ddarparu cyfleoedd addysg amrywiol.

e. bod gan addysgwyr gymhwyster addysgu neu eu bod yn gweithio tuag at gymhwyster o'r fath, neu brofiad addysg perthnasol a diweddar.

## 9 Cleifion

Mae'n rhaid i ddarparwyr addysg sicrhau a gallu dangos y canlynol:

a. bod diogelwch cleifion yn eu cliniau addysgu, clinigau o bell, cliniau efelychol a rhyngweithiadau eraill o'r pwys mwyaf, a bod gofalu am gleifion a goruchwylio hyn, o safon briodol ac yn seiliedig ar benderfyniadau effeithiol a rennir.

b. bod polisïau diogelu effeithiol yn cael eu datblygu a'u gweithredu i sicrhau bod camau gweithredu'n cael eu cymryd pan fo angen i gadw cleifion rhag niwed, a bod staff a myfyrwyr yn ymwybodol ohonynt ac yn derbyn cefnogaeth i weithredu pan fo angen.

c. bod y gymhareb staff i fyfyrwyr yn ddigonol i ddarparu addysg ddiogel a hygyrch o ansawdd priodol.

d. eu bod yn rheoli pryderon am addasrwydd myfyriwr i ymarfer, neu addasrwydd aelodau o staff i ymarfer yn unol â gweithdrefnau gan gyfeirio'n briodol at y Cyngor.

e. bod polisïau addasrwydd i ymarfer a pholisïau addasrwydd i astudio priodol yn cael eu datblygu, eu gweithredu a'u monitro i reoli sefyllfaoedd lle mae ymddygiad neu iechyd myfyrwyr yn achosi risg i ddiogelwch cleifion neu gydweithwyr.

f. bod anghenion cleifion yn cael blaenoriaeth dros bob agwedd ar addysgu ac ymchwil.

g. bod cleifion yn gallu cael gafael ar, a thrafod cyngor, canllawiau, cymorth seicolegol, hunanreolaeth, ymarfer, adsefydlu a chanllawiau ar ffordd o fyw mewn gofal osteopathig sy'n ystyried eu hanghenion a'u dymuniadau penodol.

Cyngor
Osteopathig
Cyffredinol

**General Osteopathic Council**
Osteopathy House
176 Tower Bridge Road
London SE1 3LU

E-bost: info@osteopathy.org.uk
Ffôn: +44 (0)20 7357 6655

**osteopathy.org.uk**